Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cynllun Blynyddol 2024-25

Mawrth 2024

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys


Croeso .......... 3
Ein gweledigaeth .......... 8
Ein cenhedaeth .......... 9
Amdanom .......... 10
Ein gwerthoedd .......... 13
Ein strategaeth .......... 14
Cyflwyno'r 6 Egwyddor .......... 15
Ein 3 nod .......... 17
    Datblygu .......... 19
    Cysylltu .......... 22
    Hyrwyddo .......... 25
Beth mae'r Cynllun hwn yn ei olygu i chi .......... 27
Mesur ein llwyddiant .......... 28


## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a hygyrch a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# Croeso



*Light up the Night*, Cymuned Artis



# Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser mawr imi gyflwyno ein Cynllun Blynyddol 2024/25. Mae'n adeiladu ar waith diweddar ein Hadolygiad Buddsoddi, ein digwyddiadau diwylliannol bywiog a'n harian strategol sydd wedi cyfoethogi'r darlun artistig a gwireddu ein gweledigaeth o sector celfyddydol ffyniannus.

Drwy gamau targedol, rydym wedi cadw at ein hymrwymiad i feithrin creadigrwydd, amrywiaeth a hygyrchedd yn y celfyddydau. Rydym yn cefnogi arloesi a chydweithio creadigol i gyfoethogi'r dalent sy'n dod i'r fei. Mae'n hymdrechion yn ysbrydoli sawl cynulleidfa ar draws ein cymunedau.

Mae'r rhaglenni blaenllaw yn y Celfyddydau ac Iechyd a Dysgu Creadigol yn dangos dyfnder ac amrywiaeth y celfyddydau a diwylliant ar lwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol. Maent yn dathlu bywiogrwydd a gwytnwch ein hecosystem greadigol.

Mae ein gwaith rhyngwladol hefyd yn ffynnu ac yn esiampl o'n creadigrwydd ar lwyfan byd-eang. Eleni byddwn yn lansio ein Strategaeth Ryngwladol. Drwy brosiectau cydweithiol a chyfnewid diwylliannol, rydym yn ffurfio partneriaethau ystyrlon sy'n croesi ffiniau a dangos cyfoeth ac amrywiaeth ein celfyddydau i bobl ledled y byd. Mae'n ehangu ein llais a meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ar draws diwylliannau. Mae sawl her wrth gwrs gan gynnwys goblygiadau perthynas y DU ag Ewrop ar ôl Brecsit. Ond byddwn yn trechu'r problemau i'n lleisiau atseinio ledled Ewrop a'r byd ac i leisiau'r byd gael eu clywed yma. Bydd cynaliadwyedd a chyfiawnder hinsawdd yn sail i'n gwaith drwy Gynllun Gweithredu Cyfiawnder Hinsawdd i'r Celfyddydau.

Mae ein Hadolygiad Buddsoddi yn ymgorffori ein mentrau strategol sydd â'r nod o gynnal a chryfhau seilwaith ein celfyddydau. Drwy grantiau targedol, mentrau i feithrin gallu a chreu partneriaethau gyda sefydliadau diwylliannol, rydym yn grymuso artistiaid, gwella mynediad i'r celfyddydau a meithrin arloesi a safon.

Wrth i'r ddau ohonom ganolbwyntio ar ein gwaith, edrych i'r dyfodol a cheisio gweld drwy'r cymhlethdodau, rydym yn cydnabod her y toriadau i'n cyllideb a'r hyn y bydd yn ei feddwl i'r sector. Eleni rydym yn gweithio gyda lleihad o 10.5% yn ein harian oddi wrth Lywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio nerth ein deg ewin sicrhau cynaliadwyedd ein diwylliant, ein celfyddydau a'n creadigrwydd. Ein nod yw datblygu cyfleoedd a gwneud yn siŵr bod gwaddol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i'w genhadaeth o hyrwyddo ein treftadaeth gelfyddydol a diwylliannol. Rydym yn cydnabod grym trawsnewidiol y celfyddydau i gyfoethogi bywyd, ysgogi'r economi ac adeiladu cymuned. Rydym am sicrhau'r buddion i bob cornel o'n cenedl.

Dwi'n diolch o galon i'n holl bartneriaid, rhanddeiliaid a chefnogwyr sydd mor bwysig wrth gyflawni ein gwaith ac i'n staff a'n haelodau o'n Cyngor. Gyda'n gilydd, rydym wedi gosod sylfaen gadarn wedi'i ffurfio o greadigrwydd, cynwysoldeb a chynaliadwyedd.

Diolch ichi am eich ymddiried ynom a chydweithio â ni ar y daith dan arweiniad ein hangerdd am y celfyddydau a'n sicrwydd o wneud gwahaniaeth.

Yn gynnes,

**Maggie Russell**
**Cadeirydd**



# Rhagair y Prif Weithredwr

Dwi'n falch o gyflwyno'r Cynllun Blynyddol ichi ar gyfer 2024/25.

Dyma'r Cynllun Blynyddol cyntaf dan arweiniad y fframwaith strategol 10 mlynedd newydd sy'n nodi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein gwerthoedd, ein hegwyddorion, ein hamcanion a'n hymrwymiadau.

Gyda'r fath fframwaith strategol, rhaid edrych yn ôl, edrych o gwmpas ac edrych ymlaen. Roeddem wedi llunio ein fframwaith strategol newydd ar sail ein Siarter Frenhinol (1994), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n gweledigaeth hirdymor am y celfyddydau. Ond mae profiad y blynyddoedd diwethaf yn dangos yr angen inni fod yn hyblyg ac ymateb i newidiadau annisgwyl. Felly yn y fframwaith mae digon o le ar gyfer hyblygrwydd a thwf pan fo hynny'n briodol.

Yn y Strategaeth 10 mlynedd mae tri amcan syml:

- Datblygu
  Datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u harferion cynaliadwy.
- Cysylltu
  Cydweithio i wella'r cyfle i'n pobl brofi a mwynhau'r celfyddydau.
- Hybu
  Cydweithio â phartneriaid i hyrwyddo Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r iaith yn ffynnu.



*Duets*, Ballet Cymru (Llun: Ffotograffiaeth Sian Trenberth)

Dyma'r amcanion sy'n llywio ein Cynllun eleni. Cyd-destun ein targedau yw ein Hadolygiad Buddsoddi diweddar, gostyngiad o 10.5% yn ein harian gan Lywodraeth Cymru eleni a'r cefndir economaidd anodd lle mae sefydliadau ac artistiaid dan y lach yn ariannol.

Ond rydym yn grediniol bod modd cyflawni'r camau yn y Cynllun. Mae llawer o waith i'w wneud ac mae'r problemau'n aros yn ddybryd. Ond dwi'n hyderus, gydag ymrwymiad ein Cyngor a'n staff, fod modd inni gydweithio â'r sector i sicrhau bod profiadau celfyddydol o safon yn parhau wrth wraidd ein bywyd bob dydd.

**Dafydd Rhys**
**Prif Weithredwr**

# Ein gweledigaeth

Mae’r celfyddydau’n rhan o fywyd beunyddiol pobl Cymru. Maent yn ein cysylltu â’n gilydd, yn rhan annatod o’n lles ac yn ein hysbrydoli am genedlaethau i ddod.



Jukebox Collective

# Ein cenhedaeth

Swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yw creu sefyllfa yn y maes lle mae gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer yn ffynnu a lle mae pawb yn gallu profi'r celfyddydau.

Rydym am weld Cymru o uchelgais a thegwch sy'n creu celfyddydau cyffrous yn rhan annatod o'n hiechyd a'n lles sy'n berthnasol i bob cymuned. Bydd ein lleisiau'n ysbrydoli'r byd a byddwn yn cael ein hysbrydoli gan y byd o'n cwmpas.



Aelodau Cyswllt Ifanc CDCCymru

# Amdanom




*Amdani!* Conwy, sesiwn sefydlu gwirfoddolwyr gyda Hijinx, Venue Cymru (Llun: Paul Davies, Cambrian Photography)

Elusen gofrestredig yw'r Cyngor a oedd wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol. Rydym yn dosbarthu arian Llywodraeth Cymru.

Ni yw'r corff cyhoeddus sy'n ariannu a datblygu ein celfyddydau. Bob dydd, mae pobl ledled Cymru yn mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Rydym yn cefnogi artistiaid a sefydliadau i greu gwaith sy'n cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Mae ein gwaith yn bosibl drwy'r arian cyhoeddus rydym yn ei gael gan Lywodraeth Cymru a'r arian sy'n dod inni fel achos da gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cefnogi cymuned gelfyddydol fywiog ac, yn ein tro, yn cael ein cefnogi ganddi. Mewn cartrefi gofal, ysbytai, neuaddau pentref, ysgolion, gwyliau ac yn rhyngwladol, mae ein partneriaid ym maes twristiaeth, addysg, chwaraeon, yr amgylchedd ac iechyd yn gymorth inni ddangos y gwahaniaeth y mae'r celfyddydau'n ei wneud. Maent yn gwneud gwahaniaeth i'n lles, i'n cymuned a'n hysbryd a chreu Cymru decach a mwy cyfartal.

Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, rydym yn hyrwyddo cyfraniad pwysig y celfyddydau at ein gwlad a'n byd – yn ddiwylliannol, cymdeithasol, iechyd, addysgol, amgylcheddol ac economaidd – drwy fuddsoddi yn ein hartistiaid, ein sefydliadau a'n cymunedau.

Mae ein gwaith yn rhan o fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan y Ddeddf saith nod:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru wydn
3. Cymru iachach
4. Cymru fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynol
6. Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang



*Mission Control*, Hijinx
(Llun: Jonathan Dunn)

## Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r amcanion ac yn cael ei lywio gan y 5 ffordd o weithio:

**Hirdymor**

Mae'r cynllun yn disgrifio ein tasgau allweddol wrth gyflawni ein Fframwaith Strategol newydd dros y 10 mlynedd nesaf. Byddwn yn ystyried rhaglenni gwaith eraill hefyd wrth ochr y cynllun gan gynnwys canlyniadau ein Hadolygiad Buddsoddi a datblygu Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru. Hefyd bydd effaith meysydd gwaith penodol (fel cyfiawnder hinsawdd, y Gymraeg ac ehangu ymgysylltiad) yn cefnogi cynlluniau hirdymor Llywodraeth Cymru gan gynnwys Sero Net, Cymraeg 2050, Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru a Chynllun LHDTC+.

**Integreiddio**

Mae'r 6 egwyddor a ddaeth o'n Hadolygiad Buddsoddi yn cysylltu â'i gilydd ac yn cefnogi'r amcanion lesiant yn y diagram isod.

**Cydweithio**

Byddwn yn cydweithio â sawl partner a rhanddeiliad yn sector y celfyddydau a diwylliant a'r tu hwnt. Mae ein prif bartneriaid yn cynnwys sawl adran o Lywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sefydliadau partner, artistiaid, gweithwyr llawrydd creadigol, cynulleidfaoedd a'r sefydliadau celfyddydol rydym yn eu hariannu.

**Cynnwys**

Byddwn yn ymgynghori â'r sector ehangach a'r cyhoedd, yn enwedig y rhai o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd dadansoddi data, ymchwil, adborth a gwerthuso wrth wraidd ein gwaith cynllunio a datblygu yn y dyfodol.

**Atal**

Byddwn yn gwella sut rydym yn cefnogi a datblygu ein celfyddydau. Drwy ein cysylltiadau ag artistiaid, sefydliadau, cynulleidfaoedd a chymunedau, byddwn yn defnyddio grym y celfyddydau i waredu anghydraddoldeb ac atal niwed i bobl a'r blaned.

# Ein gwerthoedd

**Uchelgais**

Sicrhau bod y celfyddydau rydym yn eu hariannu yn diwallu anghenion a chwrdd â dyheadau'r Gymru gyfoes gan greu pethau gwych ar bob lefel, yn lleol a byd-eang.

**Parch**

Trin pawb (cleientiaid, rhanddeiliaid, gweithwyr, y sector creadigol a'r cyhoedd) ag urddas gan eu gwerthfawrogi, ni waeth beth yw eu cefndir, eu statws, eu hoed neu eu credo a chydnabod eu cyfraniad unigryw at y celfyddydau a diwylliant, yn lleol a byd-eang.

**Cyfrifoldeb**

Gweithio'n foesegol a thryloyw, bod yn atebol am ein penderfyniadau a'u canlyniadau, gwerthuso a dysgu o'n gwaith i greu canlyniadau da a meithrin diwylliant o ymddiried a gwell cyfleoedd i bawb.




Abertawe Agored,
Oriel Gelf Glynn Vivan,
(Llun: Polly Thomas)

# Ein strategaeth

Eleni byddwn yn lansio ein Strategaeth newydd i'r 10 mlynedd nesaf. Mae'n cyd-fynd ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Fframwaith yw ein Strategaeth. Bydd yn ymateb yn hyblyg i'r anghenion presennol ac unrhyw newidiadau a fydd gan ystyried cenedlaethau'r dyfodol.

I gyflawni hyn, byddwn yn ei hadolygu a'i datblygu'n rheolaidd drwy'r 10 mlynedd. Byddwn yn ymgynghori'n rheolaidd a chael adborth a gwerthusiadau cyson. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am y newidiadau a'r diweddariadau yn ein cynlluniau blynyddol a'n strategaethau cyfathrebu.

Mae ein Strategaeth wedi'i llunio gan 6 egwyddor Adolygiad Buddsoddi 2023. Mae'r egwyddorion yn sail i'n holl waith ac yn cyd-fynd â'r 7 nod llesiant.



# Cyflwyno'r 6 Egwyddor

**Creadigrwydd**

Mae gan bob celfyddyd y grym i'n cysylltu â'n gilydd ac yn fodd inni ddeall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Mae creadigrwydd yn herio a thanio ein dychymyg. Mae'n dod â llawenydd a gobaith i'n cynulleidfa a'n cyfranogwyr.

Mae creadigrwydd yn yr holl waith a'r holl bobl rydym yn eu cefnogi. Rydym am weld ystod eang o gelfyddydau, arloesi artistig o safon ac arferion creadigol sydd wedi'u datblygu gyda golwg ar y gynulleidfa a'r gymuned.

**Cydraddoldeb ac ymgysylltu**

Mae gan bawb yr hawl i fwynhau ein diwylliant, ein hiaith, ein tirwedd a'n celf a chymryd rhan ynddynt.

Mae'n celfyddydau a'n diwylliant yn perthyn i bawb a rhaid iddynt adlewyrchu bywyd pob un ohonom.

Byddwn yn cael gwared ar y rhwystrau i brofi'r celfyddydau. Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth lawn i bobl amrywiol yn ein gweithlu, yn arweinwyr, penderfynwyr, crewyr, ymwelwyr, cyfranogwyr ac aelodau o'r gynulleidfa.

**Y Gymraeg**

Ein nod yw gosod y Gymraeg a'i diwylliant wrth wraidd ein creadigrwydd. Mae'r iaith yn perthyn i bawb ac yn fodd i ddathlu'r cysylltiad rhwng cymunedau.

Byddwn yn rhannu cyfleoedd sy'n cyfrannu at dwf yn nefnydd yr iaith a nifer y bobl sy'n ei pherchnogi. Byddwn yn cefnogi'r sector i osod y Gymraeg wrth wraidd ei greadigrwydd a'i gymunedau drwy wrando ar bobl a dysgu am yr angen. Byddwn yn cydweithio i ledu gwasanaethau a chyfleoedd creadigol Cymraeg.



Cerdd y Dyfodol, Celfyddydau Cendlaethol Ieuenctid Cymru, (Llun: Evan Dawson)

## Cyfiawnder hinsawdd

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo swyddogaeth bwysig y celfyddydau i drawsnewid ein cymdeithas a'n heconomi i ddatrys yr argyfwng hinsawdd a natur. Nid yr ôl-effeithiau amgylcheddol yn unig yw'r broblem gyda'r hinsawdd. Mae hefyd angen cyflawni cyfiawnder cymdeithasol a datrys anghydraddoldeb.

Byddwn yn cefnogi'r sector i ysbrydoli pobl i weithio dros gyfiawnder hinsawdd a chreu sector sy'n amgylcheddol gynaliadwy ar sail cyfiawnder cymdeithasol.

## Datblygu talent

Byddwn yn sicrhau bod artistiaid yn ffynnu.

Rhaid creu llwybrau i bobl o bob cefndir allu datblygu sgiliau, gyrfa gynaliadwy a'r gallu i arwain.

Gan gydweithio, byddwn yn sicrhau dosbarthu'n deg y cyfleoedd i artistiaid a chynnig gwaith teg a gwell canlyniadau i'n pobl, nawr ac yn y dyfodol

## Trawsnewid

Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd newydd ac ymateb yn hyderus i'r holl newidiadau sy'n digwydd o'n cwmpas. Byddwn yn mentro, meithrin gwytnwch, ymateb i newid a pharhau i fod yn berthnasol i'n pobl a'n cymunedau. Rydym am gael y cyfleoedd gorau i'r celfyddydau, dysgu gwersi o'r gorffennol a rhannu beth sy'n gweithio orau.




# Ein 3 nod

Mae ein Strategaeth yn seiliedig ar y 3 nod sy'n adlewyrchu cylch gwaith gwreiddiol ein Siarter Frenhinol ac amcanion Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

| | |
|---|---|
| **Datblygu** | Datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion cynaliadwy ym maes y celfyddydau. |
| **Cysylltu** | Cydweithio i wella'r cyfle i'n pobl brofi a mwynhau'r celfyddydau. |
| **Hyrwyddo** | Cydweithio â phartneriaid i hyrwyddo Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. |

Rydym wedi disgrifio sut mae'r 6 egwyddor yn cysylltu â'r amcanion a sut mae'r gwaith yn cefnogi amcanion ein Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru.

Dyma'r eiconau a fydd yn nodi'r cysylltiadau:

### Y 6 Egwyddor


Creadigrwydd


Cydraddoldeb ac Ymgysylltu



Y Gymraeg


Cyfiawnder Hinsawdd


Datblygu Talent


Trawsnewid

### Amcanion y Llythyr Cylch Gwaith



- Datgarboneiddio
- Gwaredu anghydraddoldeb a chreu Cymru wrth-hiliol
- Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb
- Hyrwyddo iechyd a lles
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc
- Dangos darlun grymus a gwych o Gymru i'r byd

Mae tasgau allweddol ar draws ein 3 nod a fydd yn cefnogi'r sector, y gynulleidfa a'n cymunedau. Bydd hyn yn diwallu anghenion y sector a'n cymunedau gan ddysgu'r gwersi i gael effaith a gadael gwaddol hirdymor. Y cynllun blynyddol yw cam cyntaf ein Strategaeth 10 mlynedd. Mae'r tasgau allweddol sydd i'w gwireddu yn 2023/24 isod.

# Datblygu

Datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion cynaliadwy ym maes y celfyddydau.

## Tasg allweddol

**Blaenoriaethu**

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Datgarboneiddio

## Byddwn yn

- Blaenoriaethu ein gwaith i ystyried anghenion y sector a'r adnoddau sydd ar gael gan gynnwys rhai ariannol.
- Cyhoeddi ein Fframwaith Strategol newydd.
- Monitro cynnydd ein sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn yn ôl ymrwymiadau eu cytundeb ariannu ym mlwyddyn 1 ac adrodd amdanynt.
- Gyda chymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, cynnig rhaglen ariannu newydd, Buddsoddi yn y Theatr.
- Datblygu cynllun ariannu cyfalaf.
- Bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau strategol o'n Hadolygiad Buddsoddi sydd â blaenoriaeth yn 2024/25.
- Cyhoeddi ein cynllun, Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau, a gwireddu ymrwymiadau blwyddyn 1.
- Cyflawni trydedd flwyddyn ein partneriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru o'r enw Natur Greadigol sy'n cynnwys Rhaglen y Cymrodorion.
- Cyhoeddi ein cynllun Cymraeg a gwireddu ymrwymiadau blwyddyn 1.
- Cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a gwireddu ymrwymiadau blwyddyn 1.
- Mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, byddwn yn gwireddu'r ymrwymiadau a'r camau allweddol yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.
- Datblygu a chyflwyno ein cynlluniau i gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gysylltu â'r celfyddydau yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi.
- Cyhoeddi ein Strategaeth Ryngwladol a gwireddu cynllun gweithredu blwyddyn 1.

## Tasg allweddol

### Dadansoddi a nodi

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

**Byddwn yn**

- Comisiynu adolygiad o'r theatr Saesneg yng Nghymru ac ystyried argymhellion yr adroddiad gan ymbaratoi at eu gweithredu.
- Comisiynu adolygiad o ddawns yng Nghymru gan gynnwys dawns gymunedol ac ystyried argymhellion yr adroddiad.
- Ystyried ein cefnogaeth i gerddoriaeth draddodiadol ac anghenion buddsoddi'r dyfodol.
- Gwerthuso ac ail-lansio ein rhaglen, Camau Creadigol.
- Rhoi ar waith y 6 egwyddor, y 5 ffactor cydbwyso a data ategol ein Hadolygiad Buddsoddi ar draws meysydd eraill o'n gwaith. Byddant yn llywio ein polisi a'n penderfyniadau a rhoi cyfleoedd i ragor o bobl fwynhau'r celfyddydau mewn ffyrdd newydd a chyffrous.
- Comisiynu Asesiad o Effaith Economaidd ein buddsoddi yn y celfyddydau.
- Gwerthuso ein gwaith gyda'n Cydweithwyr Celfyddydol a rhoi galwad newydd i gael rhagor gan sicrhau bod lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai sydd â phrofiad byw yn eu plith ar draws ein gwaith a'n penderfyniadau.

## Tasg allweddol

### Gweithredu

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Gwaredu anghydraddoldeb a chreu Cymru wrth-hiliol

**Byddwn yn**

- Cefnogi'r seilwaith presennol i ddawns wrth aros am ganlyniadau ein hadolygiad o ddawns a dawns gymunedol.
- Datblygu adnoddau cymorth busnes a hyfforddiant i sefydliadau i gefnogi trawsnewid a gwytnwch.
- Adolygu ein harian Loteri.
- Gweithredu argymhellion ac ymrwymiadau yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun LHDTC+ gan Lywodraeth Cymru.

Tasg allweddol

## Symleiddio

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Byddwn yn

- Adolygu a symleiddio ein grantiau a sut i ymgeisio.
- Diweddaru ein gwefan i wella mynediad i'n gwybodaeth a'n hadnoddau.
- Gwella ein systemau mewnol i fynd yn fwy effeithiol.
- Cyflwyno trefniadau adrodd symlach a phwrpasol i'n sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn.
- Adolygu ein Cynllun Casglu.

Tasg allweddol

## Datblygu gyrfa

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Creu cyfleoedd i bobl ifanc

Byddwn yn

- Cefnogi RAMPiau Cymru i greu newid ystyrlon a chynaliadwy i wella cynrychiolaeth pobl anabl ar draws sector y theatr brif ffrwd.
- Gweithio gyda phartneriaid fel Cymru Greadigol i nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau yn y sesctor lle mae eu hangen fwyaf.
- Eiriol dros gyflog teg a chyfleoedd datblygu'n broffesiynol a hyfforddiant parhaus.
- Datblygu cyfleoedd gweithio cynaliadwy a thargedol i bobl anabl a'r rhai o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol.
- Gweithredu a chefnogi mentrau i ddiogelu a chynnal gyrfa a gwaith i weithwyr celfyddydol a'r rhai sydd am ymuno â'r gweithlu gan gynnwys dan yr Addewid Gweithwyr Llawrydd mewn partneriaeth â Chymru Greadigol.
- Creu cyfleoedd mentora a hyfforddi i weithio gyda'r sector i ddatblygu ein hymrwymiadau Cymraeg gan weld cyfleoedd i gydweithio.
- Buddsoddi mewn cyfleoedd hyfforddi, datblygu sgiliau a magu'r gallu i sefydliadau ac unigolion gyflawni eu hymrwymiadau cyfiawnder hinsawdd.

## Cysylltu

Cydweithio i wella'r cyfle i'n pobl brofi a mwynhau'r celfyddydau.

Tasg allweddol

### Gweithio gydag eraill

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Gwaredu anghydraddoldeb a chreu Cymru wrth-hiliol

Byddwn yn

- Bwrw ymlaen â phrosiect Llywodraeth Cymru i greu Oriel Gelf Gyfoes.
- Bwrw ymlaen â'r datblygiad cyfalaf i Theatr Clwyd.
- Gweithio ar fentrau mewn partneriaeth â Chynghorau'r Celfyddydau ym Mhrydain ac Iwerddon.
- Bwrw ymlaen â'n Memorandwm gyda Chymru Greadigol i gael rhagor o gyfleoedd yn y sector a'i wneud yn fwy effeithiol gan flaenoriaethu cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol i gyflwyno rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau o gydraddoldeb ac ehangu ymgysylltiad, y Gymraeg a datblygu talent.
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi mathau o gerddoriaeth a chrewyr sydd heb eu hariannu'n ddigonol, fel Power Up! ac Accelerator gyda Sefydliad PRS.
- Comisiynu'r ymchwil angenrheidiol gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sefydlu data sylfaenol am allyriadau carbon a chynaliadwyedd amgylcheddol y sector. Bydd hefyd yn rhoi argymhellion am y model gorau i'r sector gyrraedd sero-net, ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a datrys yr argyfwng natur.

Tasg allweddol

## Cymuned

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Gwaredu anghydraddoldeb a chreu Cymru wrth-hiliol

Byddwn yn

- Archwilio, datblygu a gweithredu rhaglenni sy'n cefnogi cymunedau i lunio a chreu eu profiadau celfyddydol oherwydd ein hymrwymiad i ddemocrateiddio diwylliannol.
- Blaenoriaethu cymunedau tlawd a'r rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol wrth ddatblygu rhaglenni.
- Cynnal cyfres o Sgyrsiau Cenedlaethol am y celfyddydau gan ganolbwyntio ar Gymru, Prydain a thramor.
- Datblygu rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i roi cefnogaeth a mentora i ystyried y dulliau gorau o ehangu ymgysylltiad a rhannu'r arferion gorau.
- Datblygu ein cysylltiadau ag awdurdodau lleol i weld sut y gallwn gydweithio i sicrhau'r celfyddydau gorau i bawb, yn enwedig mewn meysydd:
  - › sy'n cael eu llai o arian
  - › lle mae cydfuddsoddi'n digwydd (fel gyda rhai lleoliadau).

Tasg allweddol

## Plant a phobl ifanc

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Creu cyfleoedd i bobl ifanc

Byddwn yn

- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector addysg i gyflawni blwyddyn 3 o'r estyniad 3 blynedd i'n rhaglen Dysgu Creadigol.
- Datblygu a lansio cynllun neu faes ariannu i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd tlawd a'r rhai sy'n wynebu problemau.
- Datblygu a lansio maes yng Nghreu sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc arwain ar gynhyrchu eu celfyddydau.
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ein strategaethau, ein rhaglenni a'n penderfyniadau.

## Tasg allweddol

## Lles

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Hyrwyddo iechyd a lles

## Byddwn yn

- Datblygu ein rhaglen, y Celfyddydau, Iechyd a Lles, mewn partneriaeth â Chydffederasiwn y GIG a'r Byrddau Iechyd.
- Datblygu ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru o lunio cynllun i gyflwyno rhaglen y Celfyddydau, Iechyd a Lles yn y dyfodol.
- Adeiladu ar ein partneriaeth â Sefydliad Baring i ddatblygu rhaglen 4 blynedd gyda ffocws ar hyrwyddo celf i wella iechyd meddwl.



Canu am Hwyl, Cyswllt Celf

## Hyrwyddo

Cydweithio â phartneriaid i hyrwyddo Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**Tasg allweddol**

### Partneriaethau

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Dangos darlun grymus a gwych o Gymru i'r byd

**Byddwn yn**

- Cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Diwylliant newydd Llywodraeth Cymru a'i chefnogi.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni Cytundeb y Bartneriaeth Strategol Ryngwladol i wireddu ei Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu gan gynnwys:
  - Partneriaeth strategol ryngwladol â Llywodraeth Cymru i gyflawni ei strategaeth ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu (Blwyddyn Cymru yn India 2024, Blwyddyn Cymru yn Siapan 2024, datblygu Degawd Ieithoedd Cynhenid y Cenhedloedd Unedig yng Nghymru).
  - Adolygu Fframwaith Effaith Gwerthuso Cenedlaethau'r Dyfodol Rhyngwladol a Chronfa'r Cyfleoedd Rhyngwladol.
  - Partneriaeth newydd gyda'r Cyngor Prydeinig (India, Siapan, cydweithio mewn digwyddiadau blynyddol – Ffocws Cymru, Caeredin a Womex yn 2024 – a'r Celfyddydau, Iechyd a Lles, Dysgu Creadigol a Chyfiawnder Hinsawdd fel themâu sy'n datblygu).
  - Rhaglen Arddangos Rhyngwladol.
- Llofnodi cytundeb partneriaeth newydd â'r Cyngor Prydeinig.
- Cynyddu gwaith partneriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Genedlaethol er Dysgu Cymraeg.
- Adfywio partneriaethau a chwilio am bartneriaethau newydd i ddatblygu meysydd o flaenoriaeth drwy gynyddu buddsoddi ac adnoddau.

Tasg allweddol

## Adnoddau

Gwella hygyrchedd a chyfranogi i bawb

Byddwn yn

- Dyrannu adnoddau i godi proffil y sector drwy eiriol dros y celfyddydau a chymorth ariannol o ffynonellau hen a newydd.



QWERIN (Llun: @twocatsintheyardphotography)

Tasg allweddol

## Dathlu

Dangos darlun grymus a gwych o Gymru i'r byd

Byddwn yn

- Defnyddio a chyhoeddi straeon i'w rannu a thynnu sylw at gyrraedd ein hamcanion a hyrwyddo arferion da.
- Dyrannu adnoddau i godi proffil y sector yma a thramor.
- Buddsoddi yn ein cyfathrebu a'n brand i symleiddio ein negeseuon ac eiriol yn ehangach.


Beth mae'r Cynllun hwn yn ei olygu i chi
Hoffwn fynychu'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt a gweithio yn y maes
Bydd rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol a fydd o fudd i'm hiechyd corfforol a meddyliol
Bydd fy ngweithgarwch celfyddydol ar ôl y pandemig wedi'i warchod ac yn well
Bydd strategaethau i gael rhagor o gyfleoedd arwain a datblygu gyrfa yn y celfyddydau i mi
Mae fy marn o bwys a bydd pobl yn gwrando arnaf
Ni phrofaf anfanteision oherwydd fy amgylchiadau neu'r lle dwi'n byw
Rhagor o gyfleoedd creadigol i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi
Bydd digwyddiadau a chyfleoedd celfyddydol lleol yn Gymraeg a Saesneg
Artist neu weithiwr creadigol llawrydd dwi
Caf gefnogaeth drwy egwyddorion y contract diwylliannol yn fy ngwaith
Rhagor o gyfleoedd i weithio'n greadigol mewn sefyllfaoedd iechyd ac addysg
Datblygu cyfleoedd cynhwysol gyrfa ac arwain yn y celfyddydau
Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru
Ymgorfforir fy nghydraddoldeb a'm dewis iaith
Ni phrofaf anfanteision oherwydd fy amgylchiadau neu'r lle dwi'n byw
Bydd ymgeisio am grant yn symlach
Sefydliad celfyddydol neu grŵp cymunedol ydym ni
Ymgysylltwn yn ehangach a datblygwn bartneriaethau a chynulleidfaodd newydd
Ymgorfforwn gydraddoldeb a'r Gymraeg yn ein Bwrdd, ein gweithlu a'n rhaglenni o waith
Bydd ymgeisio am grant yn symlach
Bydd cyngor am yr Adolygiad Buddsoddi a'i weithgarwch yn ailddechrau
Ymrwymwn i'r Contract Diwylliannol
Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru
Bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy'n arwain sut y gweithiwn
Ein ffordd o weithio yn y dyfodol
Symlhau ein proses ymgeisio am grant i wneud popeth yn haws
Adeildau ein blaenoriaethau ar sail datblygiad cynaliadwy ac egwyddorion o gyfiawnder hinsoddol
Cyflawni yn ôl y targedau yn ein cynlluniau cyhoeddedig a'n Llythyr Cylch Gwaith
Datblygu a lansio Strategaeth i'r Gymraeg
Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ag anfantais sylweddol yn gymdeithasol-economaidd
Ymgynghori i ddeall heriau celfyddydol ac ôl-bandemig ac ymateb iddynt
Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd

# Mesur ein llwyddiant

Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd:

- adolygu data ariannu.
- arolygu gweithgarwch a gwaith ein sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn o ganlyniad i'r Adolygiad Buddsoddi.
- ymgynghori â'r cyhoedd.
- gwerthuso effaith mentrau a rhaglenni ariannu.
- adrodd am ein cynnydd i'n Cyngor, ei bwyllgorau a Llywodraeth Cymru.
- cyhoeddi adroddiadau blynyddol.



*Bamboo*, No Fit State (Llun: Ffotograffiaeth Luke Whitcombe)

Isod rydym yn rhoi enghreifftiau o sut rydym yn mesur ein llwyddiant.

| Nod | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| Datblygu | Byddwn wedi cyhoeddi ein Strategaeth 10 mlynedd newydd a'i chynlluniau gweithredu o ran y Gymraeg, Rhyngwladol, Cydraddoldeb Strategol a Chyfiawnder Hinsawdd. Yno fydd ein gweledigaeth hirdymor i'r celfyddydau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymraeg 2050, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Net Sero.<br><br>Drwy gyflawni'r ymrwymiadau o'n Hadolygiad Buddsoddi, byddem wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gau'r bylchau sydd yno yn y ddarpariaeth gan gynnwys y theatr Saesneg, dawns a cherddoriaeth.<br><br>Bydd Sgyrsiau Cenedlaethol yn datblygu ein cynlluniau a byddwn yn dangos effaith ein gwaith drwy gyhoeddi ein Hadroddiad Asesu Effaith Economaidd.<br><br>Byddwn yn cyflawni ein hamcanion a'n cenhadaeth ni drwy helpu ein sefydliadau i gyflawni eu gwaith nhw. Byddwn yn casglu data i gael gwell darlun o effaith y celfyddydau a'i ddefnyddio i eiriol drostynt a'u llywio yn y dyfodol.<br><br>Byddwn yn fwy effeithiol gyda rhoi gwybodaeth a bydd grantiau yn haws eu cael. Bydd ein cyfathrebu'n gliriach hefyd.<br><br>Yn y sector byddwn yn gweithio dros gyflog teg a gwell sefydlogrwydd a chyfleoedd gyrfa a datblygu.<br><br>Byddwn wedi datblygu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau a dilyn gyrfa gynaliadwy ynddynt gan gynnwys i bobl ifanc a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| | **Effaith**<br><br>Deall a chefnogi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y celfyddydau.<br><br>Bydd gwell ffocws ar y Gymraeg yn arwain at: annog siaradwyr o bob gallu; annog pobl i gael mewnbwn i ddatblygu polisi'r Cyngor a gweithgarwch celfyddydol; cyfleoedd newydd i bawb fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan a gweithio ynddynt.<br><br>Byddwn yn gallu dangos tystiolaeth o effaith ein gwaith o ran arian a lles gan gynnwys iechyd a'r amgylchedd a chefnogi amcanion Llywodraeth Cymru ym meysydd cydraddoldeb, y Gymraeg a chyfiawnder hinsawdd. |

| Nod | Mesur o lwyddiant |
|---|---|
| **Cysylltu** | Cynnydd clir i brosiectau allweddol drwy ein buddsoddi a'n hadnoddau a gweithio mewn partneriaeth. Bydd yn dod â rhagor o gyfleoedd newydd o ran cyflogaeth, ymgysylltiad a mwynhad.<br><br>Rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc a phlant brofi gweithgarwch creadigol a'i ddefnyddio i ddysgu am fywyd bob dydd, yn yr ysgol a'r tu allan.<br><br>Mae meysydd a strategaethau datblygu'n cynnwys lleisiau pobl ifanc.<br><br>Rhagor o adnoddau i adeiladu ar ein rhaglen, Y Celfyddydau, Iechyd a Lles.<br><br>Rhagor o adnoddau i gefnogi ymyriadau celfyddydol strategol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd y corff a'r meddwl. |
| | **Effaith**<br><br>Dymchwel y rhwystrau i ymgysylltu fel y bydd rhagor o bobl o bob cymuned a chefndir yn gallu profi'r celfyddydau drwy well cynigion a seilwaith i gynnwys y celfyddydau yn eu bywyd.<br><br>Ailflaenoriaethu arian i fod yn ddosbarthiad tecach i gynnig cyfle i ragor o bobl F/fyddar, anabl, niwroamrywiol a diwylliannol ac ethnig amrywiol i lywio'r cynnig creadigol i'w cymunedau a datblygu eu talent greadigol.<br><br>Arwain a chyd-greu rhaglenni celfyddydol gan gymunedau sydd wedi'u grymuso i lunio eu profiadau celfyddydol.<br><br>Drwy'r gwaith mewn partneriaeth ag eraill, bydd y celfyddydau'n fwy cynhwysol a chynrychioliadol o bob un o'n cymunedau. Bydd yn sbarduno newid ar draws y sector gan arwain at gyfleoedd newydd i fwynhau'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt a gweithio yn y maes.<br><br>Gwell cyfleoedd i ysgolion a phobl ifanc ddatblygu eu creadigrwydd a'u sgiliau creadigol a chymryd rhan yn y celfyddydau drwy'n rhaglen sy'n parhau, Dysgu Creadigol.<br><br>Rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg lywio'n polisi a'n penderfyniadau a gweithio yn y celfyddydau, gan gynnwys cyfleoedd y tu allan i'r ysgol.<br><br>Rhagor o bobl yn cael budd o brosiectau a rhaglenni ym maes y Celfyddydau, Iechyd a Lles. |

| Nod | Mesur o lwyddiant |
| --- | --- |
| Hyrwyddo | Byddwn yn cynyddu ein partneriaethau gwerth cyhoeddus a gweithio gydag eraill i gydfuddsoddi mewn gwaith strategol i gyflawni rhagor gyda'n gilydd.<br><br>Cyflawni Cytundeb y Bartneriaeth Strategol Ryngwladol gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi ei Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu. Mae'r gwaith yn cynnwys datblygu rhaglenni i'r rhanbarthau a'r gwledydd â blaenoriaeth, er enghraifft Blwyddyn Cymru yn India 2024, Blwyddyn Cymru yn Siapan 2024 a Degawd Ieithoedd Cynhenid y Cenhedloedd Unedig yng Nghymru.<br><br>Llofnodi cytundeb partneriaeth 3 blynedd newydd gyda'r Cyngor Prydeinig i gynnwys India, Siapan, cydweithio mewn digwyddiadau blynyddol (Ffocws Cymru, Caeredin a Womex yn 2024) a'r Celfyddydau, Iechyd a Lles, Dysgu Creadigol a Chyfiawnder Hinsawdd fel themâu sy'n datblygu.<br><br>Byddwn yn canolbwyntio eto ar ein gweithgarwch a'n blaenoriaethau rhyngwladol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn fframwaith gwerthuso Cenedlaethau'r Dyfodol drafft ar gyfer gwaith rhyngwladol sydd ar y gweill ac y byddwn yn ei ddefnyddio i adolygu Cronfa'r Cyfleoedd Rhyngwladol. Bydd hefyd yn fodd inni ymateb i'r anghenion a'r bylchau a ddaeth i'r amlwg yn yr Adolygiad Buddsoddi. Byddant yn cynnwys profi dulliau newydd o ddatblygu artistiaid, arddangos, rhwydweithio a dysgu gwersi gan Gymru Fenis 10, Explore Wales, Hadu'r Dyfodol a Gŵyl Ymylol Caeredin.<br><br>Rhagor o gynrychiolaeth o'r Gymraeg ar draws ein sefydliadau gan gynnwys drwy adnoddau, gwaith creadigol ac ar fyrddau sefydliadau. |
| | **Effaith**<br><br>Mae gweithio ar y cyd mewn partneriaethau'n fodd i gael rhagor o adnoddau, rhagor o arbedion effeithiolrwydd a dysgu gwersi ar y cyd a fydd yn arwain at ragor o effaith.<br><br>Byddwn yn gallu dangos ein bod yn gwneud cyfraniad clir a chadarn at yr amcanion Llesiant drwy ein gwaith yma a thramor.<br><br>Bydd y celfyddydau'n mynd yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol o bob cymuned, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br><br>Gwell darpariaeth Gymraeg a chyfleoedd yn yr iaith ar draws y sector ac ar gyfer y gynulleidfa a'r cyfranogwyr. |